cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

## Ffurflen Cytundeb LCA 2025/26

**Dyma eich ffurflen Cytundeb Dysgu.**

| | |
|---|---|
| Enw Ysgol/Coleg | |
| Enw'r myfyriwr | |
| Dyddiad geni'r myfyriwr | Dydd / Mis / Blwyddyn |
| Cyfeirnod cwsmer | |
| Gwybodaeth ychwanegol | Rhif Adnabod y Myfyriwr: |

## Cytundeb Myfyriwr

**Darllenwch y cytundeb hwn yn ofalus**

Ni fydd modd i ni symud ymlaen gyda'ch cais am LCA os na fydd eich ysgol neu'ch coleg wedi cadarnhau eich bod wedi llofnodi'r cytundeb hwn a nodi'r dyddiad arno.

- Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth a gyflwynwyd gennyf yn flaenorol yn gywir o hyd a fy mod wedi rhoi hysbysiad o unrhyw newidiadau iddi yn unol â'r amodau ar gyfer fy nghais gwreiddiol.
- Deallaf y bydd unrhyw ymgais i sicrhau LCA mewn ffordd anonest yn cael ei thrin fel twyll ac y gallai arwain at ddwyn achos troseddol a/neu sifil yn fy erbyn.
- Fel rhan o'r LCA, deallaf y gallai'r wybodaeth a ddarparwyd gennyf gael ei hadolygu fel rhan o archwiliad sampl.

## Iaith gohebiaeth a ffefrir

Pa iaith hoffech chi i ni ddefnyddio pan fyddwn ni'n cyfathrebu gyda chi? ☐ Saesneg ☐ Cymraeg

## Caniatâd i rannu

A ydych chi'n cydsynio i'ch ysgol neu goleg yn rhannu gwybodaeth gyda'ch rhiant (rhieni)/gwarcheidwad (gwarcheidwaid) neu partner? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

## Amgylchiadau Eithriadol

A ydych chi ar hyn o bryd yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau esgusodol cyfredol a allai effeithio ar eich presenoldeb (er enghraifft, eich bod yn gofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl neu'n anabl)? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Dylech chi hysbysu eich coleg os ydych yn dod yn ymwybodol ar unrhyw adeg o amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar eich presenoldeb.

## Manylion y Cwrs

Teitl y Cwrs :

Nawr trowch i'r dudalen nesaf

## Meini Prawf Mynychu

- I dderbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), mae'n rhaid i chi fynychu 100% o'r gwersi ar eich amserlen.
- Rhaid i chi fod yn dilyn cwrs cymwys. Rhaid i bob cwrs cymwys fod yn rhaglen addysg academaidd neu alwedigaethol llawn amser sy'n para o leiaf 10 wythnos ac yn cynnwys o leiaf 12 o oriau cyswllt dan arweiniad yr wythnos (er enghraifft, os oes gan gwrs 20 o oriau cyswllt dan arweiniad, rhaid i chi fod yn bresennol ar gyfer pob un o'r 20 awr).
- Gall patrwm rheolaidd o fod yn hwyr effeithio ar daliadau LCA.
- Bydd absenoldebau heb eu hawdurdodi yn effeithio ar daliadau LCA. Telir LCA am absenoldebau awdurdodedig ar yr amodau a ganlyn: Gall dysgwr hunanardystio salwch trwy gysylltu â'r tiwtor personol i egluro pam nad yw'n gallu dod i'r coleg. Ni ellir hunanardystio am fwy na 5 diwrnod am un cyfnod olynol o salwch. Am gyfnodau o salwch sy'n hwy na 5 diwrnod neu am gyfnodau olynol rheolaidd o salwch, bydd angen llythyr gan y meddyg teulu neu weithiwr meddygol proffesiynol ar y dysgwr a bydd cefnogaeth ar gael gan y coleg.
- Bydd cyfnodau olynol rheolaidd o salwch yn cael eu monitro a gallai hyn effeithio ar daliadau LCA.
- Bydd presenoldeb dysgwyr yn cael ei fonitro ar gyfer patrymau absenoldeb a chyfnodau rheolaidd o salwch, a gallai hyn effeithio ar daliadau LCA.
- Os bydd dysgwr yn hunanardystio salwch, yna rhaid i'r dysgwr gysylltu â'i Faes Rhaglen yn unol â'r cytundeb presenoldeb a amlinellwyd gan y tiwtor personol. Bydd y coleg yn anelu at gefnogi pob dysgwr sy'n colli coleg oherwydd salwch ac yn gweithio i sicrhau bod dysgwyr yn gallu dychwelyd i'r coleg cyn gynted â phosibl i barhau â'u hastudiaethau.
- Os bydd dysgwr yn cael anhawster i fynychu gwersi ar amser neu'n dioddef salwch rheolaidd, mae'n bwysig ei fod yn siarad â'i diwtor personol neu'n dod i'r Gwasanaethau i Ddysgwyr i ofyn am gefnogaeth.

## Rhestr wirio ysgol/coleg

**Rhaid i hyn gael ei chwblhau gan yr ysgol/coleg i gadarnhau:**

☐ Eich bod wedi esbonio i'r myfyriwr sut mae'r cynllun LCA yn gweithio, yn cynnwys monitro presenoldeb a llwyddiannau.

☐ Rydych wedi esbonio i'r myfyriwr y bydd yn dechrau cael ei daliadau LCA pan fyddwch yn cadarnhau ei fod wedi llofnodi ei Gytundeb LCA.

☐ Byddwch yn cadarnhau fod y myfyriwr wedi llofnodi ei Gytundeb LCA ar Borth y Ganolfan Ddysgu.

☐ Byddwch yn cadarnhau presenoldeb y myfyriwr ar Borth y Ganolfan Ddysgu yn wythnosol.

**Myfyriwr**

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) ______

Eich llofnod X ______

Dyddiad heddiw: Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __

**Ysgol/Coleg**

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) ______

Eich llofnod X ______

Teitl Swydd ______

Dyddiad heddiw: Dydd __ __ Mis __ __ Blwyddyn __ __ __ __